YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 2.] CHWEFROR, 1924. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.

ODDIAR Y TWR.

DUW A MAMMON.

YR ANGHRIST CYNTAF A YMDDANGOSODD, &c.

SALMAU PRYS.

PRIODASAU.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

BRWYDR Y COED.

Llandyssul:

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Llyfr Newydd allan o'r Wasg.

"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH"

— GAN —

Alfred Hall, M.A.,

CYFIEITHIWYD GAN

T. Oswald Williams, B.A.

110 tudalen. Pris 3c.; trwy'r post 4½c. 13 am bris 12.

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

Mourning Cards...

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1924. [CYF. XXIV. RHIF 2.

AR ADEN FFYDD.

"TANGNEFEDD AR Y DDAEAR."

DUW a Thad yr holl genhedloedd,
O sancteiddier D'Enw mawr,
Dy ewyllys Di a wneler
Gan dylwythau daear lawr;
Doed Dy Deyrnas
Mewn uniondeb pur a hedd.

Gwasgar Di y rhai sy'n caru
Rhyfel a'i erchylltra ef;
Rhag ei ddinfawr ddychryniadau
Dyro waredigaeth gref;
Tro'r cleddyfau
Oll yn sychau er Dy glod.

Mewn trugaredd cofia'r gwledydd,
O'u blinderau arwain hwy
Yn D'oleuni Di i rodio,
Fel na ddysgont ryfel mwy;
O cymoder
Pawb â'i gilydd wrth y Groes.

Rhodded pobloedd byd ogoniant
Fyth i'th Enw, Arglwydd Iôr,
Llifed heddwch fel yr afon,
A chyfiawnder fel y môr;
Doed Dy Deyrnas
Mewn tangnefedd heb ddim trai.

TECWYN.

ODDIAR Y TWR.

YN un o'r Salmau fe geir yr ymadrodd a ganlyn: "Dyfnder a eilw ar ddyfnder, wrth swn dy bistylloedd di." Mynegiad o hiraeth yr awdur am gynteddau tŷ'r Arglwydd—y deml—a geir yn yr ymadrodd hwn. Yr oedd, yn debygol, ymhell o gyfleustra i'w fynychu pan yn cyfansoddi'r Salm; ac yr oedd yr amgylchoedd yn tueddu i ddyfnhau'r hiraeth—hiraeth naturiol i bob Iddew—am fynychu'r deml.

* * *

Yr oedd yr awdur, adeg cyfansoddiad y Salm, yn rhywle yng nghymdogaeth mynydd Hermon—gwlad ramantus tu hwnt i ddisgrifiad. A'r gwanwyn ydoedd, yn debygol, adeg ffafriol i adfywiad dyheadau crefyddol. Yn y gwanwyn, pan mae'r haul yn toddi'r eira ar gopa mynydd Hermon, fe ruthra'r dyfroedd i lawr yn genllifoedd gwyllt dros raiadr ar ol rhaiadr; ac i ddyn a thipyn o'r elfen farddonol yn ei natur, fel awdur y Salm, y mae swn un rhaiadr fel pe'n galw ar swn rhaiadr arall, a'r llall yn ateb: "dyfnder a eilw ar ddyfnder wrth swn dy bistylloedd di." Rhywbeth yn debig i hyn oedd teimlad y Salmydd. Yr oedd y deml yn y ddinas sanctaidd yn ei alw i addoliad; ac yr oedd rhyw elfen gref yn ei natur ef ei hun yn peri iddo awyddu, hiraethu, am allu o honno ateb yr alwad: un yn galw, a'r llall yn ateb.

* * *

Paham y dechreuaf fy llith fel hyn? Am fod y geiriau y cyfeiriais atynt, yn fy marn i, yn ddisgrifiad rhyfeddol o gywir o wir brofiad y ddynolryw. Oblegid nid profiad eithriadol yw eiddo'r Salmydd, nas ceir mo'i gyffelyb yn neb arall; eithr profiad cyffredin iawn ydyw; yn wir, peth anodd yw dod o hyd i ddyn nad yw profiad cyffelyb wedi bod yn rhan iddo. Hiraeth nad yw'n bosibl ei ddiwallu'n gyflawn, hiraeth anniwall, am gynteddoedd tŷ'r Arglwydd, am gymdeithas â Duw; dyna un o nodweddau amlycaf y natur ddynol yn gyffredinol.

* * *

Yn hanes ei fywyd, fe edrydd Renan ei brofiad mewn dull heb fod annhebig iawn i eiddo'r Salmydd. Fe ystyrir Renan gan y byd Cristionogol fel anffyddiwr, ac ymhyfrydai mewn darnio pob math ar ddelw grefyddol. Nid anffyddiwr mo honno; eithr fe edrychai ar bopeth perthynol i grefydd a Christionogaeth oddiar dir gwybodaeth a rheswm. Gwir ydyw iddo ddarnio llawer o ddelwau; nid heb angen

am hynny. A'r gair "rhesymolwr" yw'r gair priodol, yn ddiameu, i ddisgrifio'r safle. Dyma fel y dywed y dyn mawr hwn am dano'i hun: "Tybiaf, ar brydiau, fod yn fy natur ryw ddyfnder anfesuradwy, o'r hwn y cyfyd lleisiau a'n galwant i weddi ac addoliad, lleisiau megis o fyd arall. Fel y'm goddiweddir gan henaint, caraf wrando arnynt fwy-fwy." Beth yw hyn ond dyfnder yn galw ar ddyfnder, rhyw elfennau ynghudd yn y natur ddynol, wedi eu plannu'n ddwfn yn y natur ddynol, nad yw'n bosibl eu diwallu ond trwy weddi ac addoliad.

* * *

Yn y dyddiau diweddaf fe ddaeth i'm sylw enghraifft nodedig arall o'r un peth. I nifer luosog o'n darllenwyr y mae enw Mr. Blatchford yn enw adnabyddus iawn, ar gyfrif ei ysgrifau galluog ar bynciau'r dydd. Drwy ei oes bu Mr. Blatchford yn anghrediniwr; ac ymhyfrydai mewn defnyddio ei forthwyl mawr i ddarnio popeth crefyddol—Duw, enaid, ac anfarwoldeb; fe ysgubai bopeth crefyddol dros y bwrdd yn ddiseremoni. Iddo ef, nid oedd Duw; neu, os oedd Duw, ni wyddai ef ddim am dano; nid oedd y fath beth ag enaid; nid oedd dim ond mater; a phan fethai mater corff dyn wneud ei waith fe ddarfyddai'r cwbl. Nid oedd anfarwoldeb ond un o'r breuddwydion disail y mae dyn wedi cymryd ei dwyllo ganddynt. Dyna safle Mr. Blatchford mewn perthynas i bethau crefyddol drwy ei oes.

* * *

Beth yw ei safle heddyw? Heddyw, y mae Mr. Blatchford yn grediniwr mewn anfarwoldeb; ac yn ganlynol, yn grediniwr mewn enaid. Ac o grediniaeth yn y ddau beth hyn nid oes ond cam bach iawn i grediniaeth mewn Duw; o leiaf, ni ddaeth i'm sylw ddim y gellid ei ystyried yn gydnabyddiaeth o Dduw. Eithr ni all ochelyd gwneud hyn yn hir oblegid y mae Duw ac anfarwoldeb, fel yr ymddengys i mi, yn dal cysylltiad agos iawn a'u gilydd. Os Duw, anfarwoldeb hefyd; os anfarwoldeb, Duw hefyd.

* * *

Y mae anfarwoldeb yn un o fannau cred Mr. Blatchford. Nid yn unig fe gred mewn anfarwoldeb, ond sicr ydyw fod anfarwoldeb yn wir, yn ffaith. A diddorol iawn yw'r ffaith mai ysbrydegaeth fu'r cyfrwng i argyhoeddi Mr. Blatchford o wirionedd anfarwoldeb; a marwolaeth ei wraig berodd iddo droi at ysbrydegaeth am gysur yn ei ofid o'i cholli. Beth yw'r eglurhad ar y droedigaeth ryfeddol. I'm tyb i, dyma'r eglurhad: rhyw elfen yn ei natur yn methu cael ei llwyr fodloni ond trwy grediniaeth yn yr ysbrydol. Enghraifft nodedig iawn o ddyfnder yn galw ar ddyfnder; dyna, o leiaf, beth welaf yn ei droedigaeth ryfeddol.

Fe dreulia dyn, fel rheol, gymaint o'i amser ynghanol pethau materol bywyd, fel y mae perigl i'r ysbrydol yn ei natur gael ei enhuddo a'i wanhau; yn gymaint felly, yn fynych, fel y mae perigl i'r ysbrydol gael ei ddiffodd ymron yn llwyr. Rhywbeth sychlyd iawn yw bywyd y pryd hyn; rhyw dir diffrwyth, digynnyrch. Belled ag y mae pethau materol bywyd yn mynd, fe all bywyd fod yn bopeth sydd ddymunol. Ond nid yw'r enaid yn cael ei faethu; y mae'r ysbrydol yn ei natur megis yn adfyw, yn rhy wan i wneud ei bresenoldeb yn amlwg. Ond fe ddaw i'n rhan ni i gyd, ar adegau, ryw ddylanwad fedr ddeffro'r dyhead yn ein mynwes am gael mwynhau awelon iachus mynydd y gweddnewidiad. Yn yr adegau hyn, fe godir ein golygon oddiwrth y materol at yr ysbrydol; oddiwrth y cibau at y bara bywiol; o'r wlad bell tua thŷ ein Tad. Beth yw hyn ond dyfnder yn galw ar ddyfnder—ysbryd dyn yn dyheu am gymdeithas a'r Ysbryd Dwyfol.

* * *

A diolch fo i'w enw, y mae moddion wrth law i ddiwallu'r dyhead hwn—mewn addoliad, mewn gweddi ddidwyll, mewn codi golwg at orsedd wen ein Tad. Credaf nad yw'n bosibl i ddyn fwynhau bywyd yn ei eithaf, ond yn unig yn yr ymgais i fodloni'r dyhead dwfn hwn yn ei natur; na, nid yw'n bosibl. Ar wahan i'r ymgais hon, i lawr yn nyffryn afiach bydolrwydd a materoliaeth y treulia dyn ei fywyd. Ac nid yw bywyd yn ateb ei ddiben gore y pryd hyn; na, y mae ymhell o ateb ei ddiben gore. Nid yn unig ni etyb bywyd ei ddiben gore y pryd hyn, ni cha dyn ychwaith o fywyd y pleser, a'r mwyniant, a'r tangnefedd, a'r gwynfyd uchelaf. Fe ddaw hyn i gyd o wrando ar, ac ufuddhau i'r galwadau a godant megis o ddyfnderoedd ein natur.

* * *

Ie, galwadau a godant megis o ddyfnderoedd ein natur. Nid ydym wedi llwyddo i blymio i lawr i'r dyfnderoedd hyn, eto, ond yn amherffaith iawn. Nid yw dyn, eto, ond prin dechreu adnabod ei hun. Ond o'r dyfnderoedd hyn, os na fogir hwynt gan ein difaterwch a'n materoliaeth ni, fe gyfyd galwadau—lleisiau megis o fyd arall—a'n gwahoddant i addoliad, i ymgais i fyw'n agosach at ein Tad.

SYLWEDYDD.

DUW A MAMMON.

Darllenasom unwaith hanesyn am wr o'r Dwyrain pell ddaeth am dro i'r Gorllewin. Ymlwybrodd trwy Iwrop, a chyrhaeddodd o'r diwedd i Lundain. Yr oedd yn hyddysg yn ein Testament Newydd ni, a choleddai syniadau aruchel ynghylch y grefydd Gristionogol. Hiraethai am ddyfod i gyfathrach a'r bobl oedd wedi ei anfon iddo. Yr oedd ei ddisgwyliadau yn uchel, ond mawr fu ei siomiant pan welodd nad oedd fawr o gysylltiad rhwng bywyd y Cristionogion a'u Testament. Ymddangosai'r efengyl ar bapur a'r safonau o fywyd oedd mewn grym yn y Gorllewin yn ddau beth tra gwahanol. Disgwyliai weled Duw'n disgleirio ymhob wyneb, ond marciau hyll Mammon a'i derbyniai mewn pentref a dinas. Disgwyliai weled hedd a chytgord mwyn yn teyrnasu yn ein cymdeithasau, ond och! swn rhyfel ac ymladdfeydd oedd yn y tir. Ni fedrai gysoni'r Bywyd a'r Llyfr, a'r canlyniad oedd iddo ymlynu'n gadarnach wrth grefydd ei genedl—crefydd y Bwda—a mynd adref a syniad isel am grefydd yr Iesu. Soniwn yn aml am ein gwareiddiad uchel, ond y mae'r dyn du a'r dyn melyn, oherwydd ymddygiadau Cristionogion, yn ei ffieiddio a'i felltigo mewn llawer rhanbarth o'r ddaear heddyw. Y Gristionogaeth welant hwy yw Gwirod a Gormes. Yn ol traed Iesu yn yr India a'r Affrig dilyna'r *speculator* a'r masnachwr diegwyddor. Pa ryfedd? Onid felly y mae gartref? Yr ydym wedi methu rhoddi i fyny yn llwyr y syniad o *addoli* Duw, ond teimlwn mai gwell yw *gwasanaethu* Mammon. Y mae Duw ar ein gwefusau, ond 'diwedd y gân yw y geiniog.' Y mae'r labrwr wedi ymserchu mor ddwfn yn ei swllt a'r miliwnydd yn ei bunt. Pwy ddydd gwelsom borter yn cynnyg cario *bag* boneddiges, tra yr oedd hen wraig anghenus yn ymladd yn galed a'i pharseli gerllaw. Caru'r *tip* oedd y brawd, ac nid parchu dynoliaeth. A welir byd gwell tra bo peth fel hyn yn teyrnasu o'r castell i'r bwthyn? Beth yw angen y wlad heddyw? Dynion feiddiant fod yn dylawd. Y mae gormod o'r *get rich quick and anyhow* yn y byd heddyw. Y nod fawr osoda cannoedd o'u blaenau yw gwneud 'ffortiwn fach' a phrynu *motor car*, a byw mewn segurdod annibynol. Y mae'r ysfa am arian wedi gafaelyd ymhob dosbarth mewn cymdeithas. Dyna sydd wrth wraidd yr anniddigrwydd presennol yn y byd. Ymhob cornel gwelir Mammon yn codi ei ben, ac aberthir dynoliaeth ar ei allor. Fe ddywedodd y goreu a welodd ein daear hyd yn hyn na ddaw fawr o drefn ar bethau yn y byd dynol tra byddis yn ceisio gwasanaethu dau Arglwydd. Dysgodd Iesu fod dyn yn rhywbeth heblaw corff, ei fod yn enaid byw, o werth amhrisiadwy yng ngolwg ei Dad Nefol. Ni ddatgysylltodd ef y syniad am Dduw a'r syniad am Ddyn.

Pan ddywedodd fod Duw yn Dad i bawb, yr ystyr oedd fod yna gysylltiad ysprydol rhwng dyn a dyn. Golygai perthynas a Duw berthynas rhyngom a'n gilydd, a chydnabyddiaeth fod pob person unigol yn dragwyddol werthfawr yng ngolwg Duw. Yr oedd Iesu yn hoff o'r person unigol, a chawn fod pob apel bersonol wnawd ato wedi cael ystyriaeth bersonol ganddo. Ni edrychai Ef ar ddynion fel nifer o 'bennau,' neu 'ddwylo,' mewn gweithfa neu ffactri. Ni edrychai arnynt, bid sicr, fel *cannon fodder*, neu fel nifer o olwynion mewn peiriant. Edrychai ef ar bob person yn unigol fel yn cynrychioli yn ei bersonoliaeth ddiben eithaf y Creawdwr mawr. Yr oedd ganddo gyfeillion ymhob dosbarth o gymdeithas. *Penniless teacher* oedd ef ei hun, a gweithwyr

tylawd oedd ei ddysgyblion. Ar y llaw arall un o'r pethau mwyaf *touching* yn yr efengylau ydyw'r hanes groniclir am Iesu a rhyw wr ieuanc cyfoethog a 'hoffodd yn fawr.' Eto, dywedir ei fod yn gyfaill i publicanod a phechaduriaid, i *scum* y boblogaeth, fel y dywedwn ni. Gwelodd yn y synagog ddyn a'i law wedi gwywo, ac fel arweinydd symudiad crefyddol, mawr, buasai yn hawdd iddo ef wneud esgusawd a dweyd fod y llaw wedi bod yn y cyflwr oedd yn hir, ac na fuasai perigl aros hyd drannoeth, yn hytrach na digio y bobl hynny a ddalient fod iachau ar y Sabbath yn anghyfreithlon. Ond i Iesu yr oedd angen y dyn unigol hwnnw yn beth mwy pwysig o lawer na'r angen o barchu rhagfarn a balchder sect. Yn yr un modd dylasai pob Gwladwriaeth Gristionogol amcanu at wasanaethu buddiannau uwchaf y person unigol. Os ydym yn credu yn wirioneddol fod pob bod dynol yn blentyn i Dduw—oni ddylai'r Wladwriaeth osod y nod o'i blaen i sicrhau fod yr oll o'i deiliaid yn cael cyfle i ddatblygu eu cyneddfau meddyliol, moesol ac ysprydol? Y prif nod ar hyn o bryd yw gofalu bod Mammon yn cael ei gyfle gan nad beth fydd ar ol. Meddylier am addysg uwchraddol heddyw. Y mae yn gyfyngedig i un dosbarth—y cyfoethog. Y mae addysg y mwyafrif mawr yn ein gwlad heddyw yn gorffen ar ol pedair blynedd ar ddeg, ac yr ydym o'r wyneb i achwyn fod Gweriniaeth yn anllythrennog. Rhowch gyfle i'r werin, ac mi warantaf y bydd iddi droi allan cystal ysgolheigion ag a wnaeth Rhydychen a Chaergrawnt erioed o'u dosbarth breintiedig. Ai nid yw yn bosibl cael cyfundrefn o addysg trwy ba un y gellir rhoi cyfle i'r paentiwr, y bardd, y cerddor, y dyfeisiwr, neu'r cerflunydd, i ddatblygu ei hun i'r pwynt eithaf? Y mae ein cyfundrefn bresennol yn claddu mwy o dalentau nag y mae yn dynnu allan i'r goleuni.

Fe ddywedir wrthym y byddai gormod o fobl glyfer yn y byd pe byddai addysg yn rhydd o ffon isaf yr ysgol hyd yr uwchaf. Ond ystyr ymresymiad o'r fath yna yw ein bod yn meddwl mwy am hawddfyd yr ychydig nag am ddaioni y person unigol. 'Ni ellwch wasanaethu Duw a Mammon.'

Meddylier eto am ein gweithfeydd. Meddylier am gwmni yn agor gwaith newydd. Beth yw'r amcan? Ai rhoi cyfle i'r gweithiwr i ddatblygu ei gyneddfau mewn gwaith defnyddiol a da—gwaith ymha un y gall gymeryd diddordeb personol wrth roddi mynegiant i'w alluoedd creadigol? Ni choeliaf fawr. Yr amcan pennaf yw creu cyfoeth, ni waeth beth yw *quality* y *goods* droir allan. Os mai peiriant i gynnyrchu cyfoeth yw'r ffactri, neu'r weithfa, yna y mae'r gweithiwr yn gweithio er mwyn cyflog yn unig, ac ni hidia fawr am wneud *gwaith da.*

Ar y llaw arall y mae'r meistr a'i lygad ar y *dividend.* Mammon sydd wrth y llyw, a'i waith ef yw'r *strike* ddinystriol. Y mae Cyfalaf a Llafur yn ei afael dŷn ef. Ddaw hi ddim! Ni ellir gwasanaethu dau arglwydd.

Ymhob cangen o waith heddyw ymron gwneir apel, nid at yr uwchaf mewn dynion, ond at eu hariangarwch. Dewisir y galwedigaethau lle y mae mwyaf o dâl. Be' sy'n talu? Dyna gwestiwn mawr yr oes. 'Y dyn sy'n mynd a hi,' ys dywedodd Mynyddog gynt, yw'r 'dyn sydd a'r synwyr yn y llogell.' Ond fe ddaw 'dydd o brysur bwyso heb fod yn hir.' Pwy ddydd yr oeddwn yn siarad a chyfaill oedd wedi bod yn yr Almaen. Yr oedd wedi dod yn ol yn *multi-millionaire.* Prynodd yr hawl am ychydig geiniogau, ond dim ond ar bapur yr oedd. Gofynnir yn aml pwy sy'n cynnyrchu'r *German Marks*, ond nid oes neb eto wedi gofyn pwy sy'n printio'r *John Bradbury's.* Ar beth mae eu gwerth yn dibynnu? Yn y gwaelod ar ewyllys da rhwng dynion, ar yr efengyl. Os na cheir ysbryd newydd i lywodraethu ym mreniniaethau dynion, fe ä y cwbl yn deilchion ac yn sarn. Pe bae y wlad yn mynd yn ben-ben mewn

gwrthryfel, dyna ddiwedd ar werth arian a phopeth. Fel milwyr Napoleon yn Rwsia gynt, goreu i gyd po leiaf o bwysau'r aur fydd gennych yn eich ffoedigaeth yn y gauaf. Na feddylier fod Gwareiddiad diweddar o angenrheidrwydd yn beth sefydlog. Yr ydym yn ei ddal ar delerau. Os na ddeuwn i fyny a safonau Duw, yn sicr fe'i collwn. Y mae yna ymerodraethau wedi bod yn y gorffennol mor rhwysgfawr ac mor fawreddog ymron a'r rhai presennol, ond diflannasant. Meddylier am yr Aifft. Beth am Tutankhamen? Yr oedd yr Aifftiwr wedi llwyr anghofio beddau Luxor. Nac anghofiwn fod gan Dduw ei delerau i ninnau. Y mae ef wedi adeiladu ei fydysawd ar Ewyllys Da, ac nid oes dim yn sicrach na dymchweliad y genedl neu'r gwareiddiad geisia wrthwynebu ei ddeddfau tragwyddol. 'Na thwyller chwi, ni watworir Duw; beth bynnag a hauo dyn, hynny hefyd a fêd efe.'

D. CELLAN EVANS,
Northampton.

YR ANGHRIST CYNTAF A YMDDANGOSODD OEDD YR EGLWYS.

Daeth yr Eglwys yn aml yn enw Iesu, gan ddywedyd, "Myfi yw Crist," a thwyllodd lawer. Hawliai'r Eglwys Babaidd mai hi oedd yr unig ffordd at Dduw, a dywedai nad oedd iachawdwriaeth allan o honi hi, a gwnai ei hordinhadau yn gyfryngau hanfodol y bywyd crefyddol; ac felly cymerodd le Crist fel cyfryngwr rhwng dyn a Duw. Dywedodd Crist, "Myfi yw y drws"; ond atebodd yr Eglwys, "Myfi yw y drws." Dywed Crist, "Os cred neb ynof fi, mai ganddo fywyd tragwyddol yn aros ynddo." Dywedai'r Eglwys nad oedd gan neb hawl i gredu yng Nghrist, oni chredai ynddi hi fel corff gweledig Crist. Mae'r Eglwys wedi honni mai hi yw y drws, y gwir fugail, y ffordd iachawdwriaeth, y gwirionedd, a'r bywyd. Wrth wneud ohoni'r honniadau hyn, gwnaeth ei hunan yn Anghrist. Daeth yn enw ei Hathraw, gan ddywedyd, "Myfi yw Crist." Lleolodd Grist, gan ddywedyd, "Wele, llyma Grist, neu llyma." Yn ol yr Efengyl mae pawb credinwyr yn offeiriaid, a sanctaidd; ond sefydlodd hi wahaniaeth rhwng yr offeiriaid a'r bobl, gan wneud un yn sanctaidd a'r llall yn fydol.

Nawr, ni a gydnabyddwn y daioni sydd yn yr Eglwys Babaidd; a gwelwn fod Pabyddion, mewn rhai pethau, yn well na Phrotestaniaid. Ond *yr Eglwys ei hunan*, gyda'i honniadau dirfawr, pryd bynnag yr hawlia ei bod yn gyfryngwr rhwng dyn a Duw, trwy hynny gwna ei hunan yn Anghrist. Cymer ein ffydd a'n gwarogaeth oddiwrth Grist, a throsglwydda hwynt iddi ei hunan. Ond mae'r un egwyddor yn Anghrist mewn Eglwysi Protestanaidd. Pan y gwna unrhyw Eglwys ei defodau a'i ffurfiau'n hanfodol, daw drwy hynny'n Anghrist. Pan yr hawlia Esgobyddiaeth nad oes neb yn weinidog nad yw wedi ei gyffwrdd gan esgob, ac nad oes yr un plentyn yn ddiogel nad yw wedi ei fedyddio a dwfr, dyga y ffurfiau yma rhwng yr enaid a Christ. Gwneud unrhyw beth yn hanfodol ond ffydd yn y Gwirionedd a'r Cariad Dwyfol yw yr Anghrist.

Mae'r egwyddor o awdurdod mewn Eglwys a'i defodau'n elynol i ysbryd yr Efengyl ac i ysbryd Iesu ei hunan. Ni ddaeth efe i ddistrywio y gyfraith

a'r proffwydi, eto ni fu diwygiwr erioed mor wreiddiol ag efe, oherwydd mae diwygiwr dinystriol yn llai gwreiddiol na'r un creadigol, cadarnhaol, a gweithredol. Bywyd blaenfynedol, a anghofia y pethau o'r tu cefn, heb aros i ymryson a hwynt, ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen, yw y diwygiad mwyaf gwreiddiol o'r oll. Bywyd Natur yn y Gwanwyn, yr hwn a gymer i fyny iddo ei hunan adfeilion yr hen flwyddyn, yw'r darlun goreu o'r diwygiad mwyaf radicalaidd hwn. Yr oedd gwaith Crist yn gwbl gadarnhaol a chreadigol fel mae'n anhawdd i ni i edrych arno ar wahan fel diwygiwr. Pe gallem, ni a welem na fu yma erioed ymosodiad mor feiddgar a thrwyadl ar goiff a ffurf crefydd ; dim unrhyw beth a gliriodd mor llwyr dir yr amser a fu, ac eto heb dori ymaith o'r tu ol un linell gydiol rhwng bywyd y goiffennol a bywyd y dyfodol. Cymerodd iddi ei hunan Moses, y proffwydi, a'r ddelfryd Iddewig am y Messia,—eu swm a'u sylwedd hwynt oll,—yna gollyngodd y ffurf ar ol. Ond i ni fod yn sicr fod cnewyllyn tyb gennym, gallwn yn rhwydd daflu ymaith y plisgyn.

Yr Anghrist mawr nesaf a gododd yn yr Eglwys oedd Credo—*Dogma*, Credo ddiwinyddol neu athrawiaethol, gan hawlio mai Crist oedd, yn dyfod yn ei enw, gan ddywedyd, "Myfi yw efe." Y gredo a ofyn am ffydd ynddi ei hunan, yn lle gofyn am ffydd yng Nghrist, mae'r ffydd honno'n myned yn Anghrist. Diau fod pob athrawiaeth fawr o eiddo'r Eglwys, ar y dechreu'n gosod allan wirionedd bywiol. Golygai Duwdod Crist, ar y dechreu, yn unig hyn : fod y rhai a welant Grist a welant nid efe, ond ei Dad,—yn edrych drwyddo ef at Dduw ; fod gwirionedd Duw a chariad Duw yn gwbl ymgnawdoledig ynddo ef.

Ysbrydoliaethau oeddynt y Credoau yma ar y dechreu, ac fel ysbrydoliaethau arweinient yr enaid at Dduw, a meddylid y gwnaethent yr un peth fel athrawiaethau. "Hyn yw Cristionogaeth," medd y pendantyn. "Dyma Grist yn y gredo hon o'r eiddom. Yn unig cydsyniwch a ni, a hi a weithia fel swyn. A hi a achub eich enaid." Felly, o'r diwedd, ni ddisgwylid i ddynion i weled y gwirionedd, ond yn unig cydsynio a'r hyn a ddywedai eraill am dano. Gofynid am gydffurfiad, nid ffydd. Yr oedd yr Eglwys wedi hawlio mai hi oedd Crist, a dywedai mai hi'n unig allai achub yr enaid ; ac yn awr daeth y gredo, a dywedai mai Crist oedd, ac mai hi'n unig allai achub yr enaid. Ond yr oedd yr Eglwys a'r gredo, yn eu gwaith yn gwneud yr honniadau hyn, yn profi mai nid Crist oeddynt, ond Anghrist. Geilw iachawdwriaeth drwy gredo yr enaid i ffwrdd oddiwrth Grist ati hi ei hunan, yn gymaint ag y gwnelai iachawdwriaeth drwy'r Eglwys o'r blaen.

Fel y cymerai'r Eglwys le Crist mewn Pabyddiaeth, felly y cymerai Credo le Crist mewn Protestaniaeth. Gwelai Protestaniaid fod Eglwys Rhufain yn Anghrist, ond methent weled fod eu cyfundrefn hwy o gredu, pan yn ei gwneud yn hanfodol i iachawdwriaeth, yn Anghrist arall, y naill yn beryglus fel y llall.

I osgoi cam-ddealltwriaeth, carwn ddywedyd eto, nad ydym yn galw Eglwys Rhufain, nag un Eglwys arall, yn Anghrist, ond yn unig pan y gwna ei hunan yn hanfodol i iachawdwriaeth yr enaid ; ac nid ydym yn galw am gredoau Anghrist hyd nes y delont *yn enw Crist*, gan ddywedyd, "Myfi yw efe," y deuant yn Anghrist. Pa bryd bynnag, gan hynny, y byddo Eglwys Rhufain yn anghofio neu'n gadael allan yr hawl halog hyn, a gwneud eu gwaith yn unig dros eneidiau dynol, daw'n rhan o wir goiff Iesu Grist ar y ddaear ; a phryd bynnag y daw y gredo, nid gan hawlio derbyniad, nid fel gwirionedd anffaeledig ac hanfodol, ond gan gynnyg ei help i angen dynol, mor bell ag y gellir yn onest ei derbyn, yna daw hithau hefyd yn gyfrwng drwy'r hwn y gall Crist ymweled a'r enaid. Pan mae'r Eglwys, neu'r gredo, yn

dyrchafu ei hunan, darostyngir hi; ond, pan yn darostwng ei hunan, dyrchefir hi.

Yr Anghrist nesaf yw teimladolrwydd crefyddol, neu grefydd ofn a theimlad. Gyda rhan fawr o'r byd Cristionogol, mae Cristionogaeth, crefydd, a duwioldeb yn eiriau cyfystyr; ond tybir fod Cristionogaeth yn gyflwr îs ar yr enaid na chrefydd, a chrefydd yn gyflwr îs na duwioldeb. Duwioldeb yw y nôd uchaf at yr hwn yr esgynwn drwy grefydd o Gristionogaeth. Meddylier y gall dyn fod yn Gristion, mewn ystyr isel a gwael o'r gair, heb fod yn grefyddol, ac y gall fod yn ddyn crefyddol, mewn ffordd allanol, heb fod yn dduwiol. Pan y proffesa ef gredu yng Nghrist a Christionogaeth, mae ef yn Gristion; pan yr â ef rhagddo o'r fan yna ac y cysegra ei hunan i ddyledswyddau crefyddol, a darllen ei Feibl yn ddyddiol, a chadw dyledswyddau crefyddol yn ei deulu, ac yn parchu Dydd yr Arglwydd, yna mae ef yn grefyddol. Ond pan yr â eto'm mhellach, ac y cyferfydd a phrofiad o deimlad dwys, yn cael ei feddiannu gan ofn a gobaith, yn cael ei boeni gan deimlad o bechod, yn cael ei wneyd yn ddedwydd gan deimlad o faddeuant, a daw felly o'r diwedd i berthynasau duwiol o weddi a mawl a Duw, —y mae wedi esgyn gris arall, ac mae'n dduwiol. Mae ei iachawdwriaeth yn gwbl sicr yn awr. Yr oedd yn amheus o'r blaen; ond yn awr y mae bron yn sicr.

Ystyrir ymarferiadau crefyddol cyffrous, gan lawer, yn gyflwr enaid uwch na Christionogaeth neu grefydd. Meddylir fod ymddiried deallus yng ngwirioneddau Cristionogaeth ac ymdrech onest i wneud ewyllys Duw o lai gwerth yn ei olwg na phrofiad cyffrous myned drwy rhyw gyflyrau penodol o ofn, gobaith, llawenydd, a theimlad dwys a gorfoleddus.

Camsynied yw dywedyd fod duwioldeb yn fwy na chrefydd, a chrefydd yn fwy na Christionogaeth. Duwioldeb yw y ris iselaf o'r bywyd crefyddol; Cristionogaeth yr uchaf. Gall dyn fod yn dduwiol heb fod yn grefyddol, a chrefyddol heb fod yn Gristionogol. Oherwydd gall un brofi teimlad crefyddol dwfn yn achlysurol heb gysegru ei fywyd i unrhyw amcan crefyddol. Gall dyn weddio'n daer bob boreu, ac yn daer bob nos, ac eto dreulio y dydd mewn galwedigaeth hollol fydol heb berthynas rhyngddi a Duw, na dyledswydd. Gall mai amcan ysgogol llywodraethol ei fywyd yw awdurdod, cyfoeth, gair da, gwybodaeth, neu bleser. Yna nid yw efe'n ddyn crefyddol, er ei fod ar amserau'n ddyn duwiol. Dyn crefyddol yw'r dyn a gysegra ei fywyd i ryw amcan uchel, cyffredinol, ac anhunanol.

Carem pe byddai mwy o dduwioldeb mewn Protestaniaeth. Carem pe na byddai cywilydd arnom i weddio. Parchwn y pagan am ei ddefosiwn syml a didwyll. Ond nid teimlad defosiynol yw Cristionogaeth; a phan yn cael ei osod yn ei lle, a'i wneud yn amod iachawdwriaeth a phrawf o gyflwr yr enaid, daw'n Anghrist. Daw'n enw Iesu, gan ddywedyd, "Myfi yw Crist, a gallaf achub eich enaid." Yna mae'n ddyledswydd arnom i ddywedyd nad efe yw Crist, ac nas gall achub yr enaid. Nac anghofiwn, tra'r ydym yn edmygu'r amlygiadau yma o ddefosiwn mewn Paganiaeth, a mannau eraill, pwy oedd yr hwn a ddywedodd, "Pan weddiech, dos i'th ystafell." A phwy oedd yr hwn a geryddodd ail-adroddiadau diddiwedd a gweddiau lawer yr ethnig a'r Pharisead?

C.C.

SALMAU PRYS.

Ar wahan i dri eithriad y mesur a ddefnyddiwyd gan Prys yw'r un a elwir Mesur Salm, sef dau gwpled gyd ag wyth a saith sillaf bob yn ail linell. Odla sillaf o'r ail linell â'r sillaf olaf yn y llinell flaenaf, fel y gwelir yn y pennill cyfarwydd hwnnw :—

Pan adeilader Seion wŷch,
A hon yn ddrych i'r gwledydd ;
Pan weler gwaith yr Arglwydd ne',
Y molir e'n dragywydd.

Yn gyffredin y mae nifer yr acenion gofynnol mewn llinell yn gywir (sef 4+3), ond y mae'r pwyslais lawer tro yn annaturiol i emyn, yn enwedig pan ddisgynno'r acen ar sillaf wan, megis Arddodiad neu Gysylltiad. Engreifftiau :—

Nad lles it' yw, na'm dâ, na'm rhin,
Ond í drin saíut dreárol,
A Thydi, Ior, sy'n rhoi 'mi ran
A chýfran ýn ddigónol.

Fy 'mádrodd *pán* ddel gár dy fróu,
A'm myfyr calon hefyd.

Y módd y gósodódd ef *ár*
Y ddaear anniddanwch.

Fel na ddelont i ddinas Dduw,
Y cýfryw á ddiwrefddiaf.

Bu adeg pryd acennid geiriau Cymraeg yn gyffredin ar y sillaf olaf mewn gair, eithr diflannasai'r dull hwnnw cyn amser Prys. Yr oedd ganddo ef eirfa odidog a helaeth, ond dyry ystyr dieithr i laweroedd o eiriau. Sylwer ar yr ansoddeiriau a ganlyn : — gelyn glas, gwirionedd heini, gwyrthiau maith, prydferth iechyd, dwylaw hawddgar, llongau glân, llwybrau cyfion, arfau tirion, traed diwair, deddfau iach, diddos galon.

Diddorol yw dyfod ar draws cynifer o eiriau gwerin yng ngwaith awdur mor glasurol ei chwaeth. Ond gan y bwriadai i'w Salmau fod o wasanaeth i'r lliaws, nid rhyfedd iddo ddefnyddio geiriau a leferid ar ddyddiau'r wythnos gan wreng a bonheddig ni sbwyliesid gan ffug gymhendod. Y maent yn darawiadol a gafaelgar, heb fod yn ddichwaeth hyd yn oed i gynulleidfa o addolwyr. Dyma ychydig o'r cyfryw eiriau :—anhap, apla, cefnog, capten, clytio, cnot, cwlio, helpio, lefelu, nasiwn, sach grys, swccwr, tardyn.

Ffurfiai eiriau cyfansawdd pryd nad atebai geiriau syml ei bwrpas. Er mwyn y beirdd a'r llenorion ieuainc sy'n darllen YR YMOFYNYDD, rhoddaf ddetholiad o honynt : — anwyl-fraint, awdwr-fainc, blaenanedig, cyd-wirionedd, creiglawr, cyd-blwyf, cynhyrfdon, daearlan, dyddfarn, ewin-ddrud, gwarthlid, llesg-wan, pen-siglo, poeth-focs, talgraig, ter-fêl, trig-lannerch.

Dywedir weithiau mai camgymeriad ar ran Prys oedd cyfyngu ei hun bron yn llwyr i un mesur, er bod hwnnw yn soniarus ddigon pan y'i defnyddir yn gymedrol. Naturiol yw casglu y buasai amrywiaeth yn y mesurau yn gwneuthur y gwaith yn llai undonnog nag ydyw. Gorchwyl ofer yw achwyn. Cymerth ef ei lwybr ei hun, a'n dyledswydd ni yw gwneuthur y goreu o hono fel y mae Ceir un Salm ar y Mesur Hir (100), dwy ar y Mesur Byr Cymraeg (51+67), a dwy ar Fesur 8.8.8. (113+114). O'r braidd y gellir cyfrif un o honynt yn Emyn Cynulleidfaol.

Er ei fedrusrwydd ieithyddol a'i gynefindra â safonau llenyddol, nid ymgadwodd yntau rhag ychwanegiadau at y testun, na rhag geiriau llanw. Brithant y tudalennau, ond nid wyf am fanylu arnynt. Digon,

feallai, fydd difyniadau o Salm xxiii. yn gymaint a'i bod yn fer ac adnabyddus :—

Yr Arglwydd yw fy Mugail *clau*,
Ar lan dwfr *gloywlas* araf.
Wyd gyd â mi, a'th *nerth*, a'th ffon.
Ond tirion ydyw'r arfau ?

O'th *nawdd* y daw [y ?] doniau hyn
I'm caulyn byth *yn hylwydd* ;
A minnau a breswyliaf byth
A'm *nyth* yn Nhŷ yr Arglwydd.

Tanlinellais y geiriau llanw â'r chwanegiadau, gan adael i'r darllenydd farnu trosto ei hun a ydynt yn cryfhau neu yn prydferthu desgrifiad un o Salmau melusaf Israel.

Diau y dylwn grybwyll un peth arbennig a nodwedda fydryddiad Prys o'r Salmau. Er ei fod yn Eglwyswr o safle blaenllaw, ymgadwodd rhag gwthio athrawiaethau'r Eglwys y perthynai iddi i eneuau awduron a goleddai grediniaeth wahanol.

Ni ellir dywedyd felly am ei olynwyr mydryddol ymysg y Cymry, sef Thomas Williams (Eos y Mynydd), Morris Williams (Nicander), a William Rees (Gwilym Hiraethog), nac ychwaith am Clwydfardd, bardd a gymerth arno ei hun y dasg o "ddiwygio ac adgyweirio" Salmau'r Archiagon. Buont hwy mor feiddgar a rhoi ffurf Brotestanaidd i ganiadau'r Eglwys Iddewig drosodd a throsodd.

Arweinia hyn fi at y ddadl parthed tincera emynau. Teimla amryw yn gryf yn erbyn y ffasiwn a ffynnai dro yn ol ymysg golygwyr Llyfrau Emynau. Oddiwrth yr awgrym yn y paragraff blaenorol, gwelir fy mod yn cydweled â'r gwrthdystwyr pan aiff detholydd cyn belled a gwyrdroi syniadau'r awduron i'w bwrpas ei hun, neu ei enwad.

Er hynny credaf y byddai newid ambell air, neu drefnu y geiriau yn y llinell yn welliant lawer pryd. Dilys gennyf y buasai Prys, beth bynnag, yn ddiolchgar i unrhyw ŵr medrus yn y gangen honno am wneuthur ei Salmau Cân yn fwy canadwy.

I mi yn bersonol, ambeuthun yw cymdeithasu â'r mydrydd galluog Edmwnd Prys trwy gyfrwng ei Salmau Cân, eto ni fedraf lai na chofnodi'r argraff sydd ar fy meddwl. Ar fyr dyma ydyw :—Er godidoced ei Salmau o safbwynt ieithyddiaeth a llenyddiaeth, rhaid cydnabod mai ychydig o honynt a ellir osod ymhlith yr emynau sy'n gwefreiddio'r galon. Heblaw anystwythder y trwsiad, y mae'r cynnwys hefyd wedi colli ei ffresni a'i gyfaddaster i bobl a ddysgwyd i edrych ar fywyd a'i broblemau yng ngoleuni'r ugeinfed ganrif.

WM. GRIFFITHS.

Penparcau, Aberystwyth.

PRIODASAU.

AR y 29ain o Ragfyr, yng Nghapelygroes, gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, a cherbron y Cofrestrydd, Mr. D. Evans, Llanybyther, Mr. Daniel Thomas, Llysfaenisaf, a Miss Margaret Ellen Evans, Felinban. Hawddfyd a'u dilyno.

AR y 23ain o Ionawr, yn Mrondeifi, gan y gweinidog, ym mhresenoldeb y Cofrestrydd (Mr. Enoch Davies), unwyd mewn glân briodas Mr. Thomas Jones, Galltshedrem, a Miss Rachel Anne Davies, Cwmanne Tavern, ill dau o blwyf Pencarreg Oes o gariad a dedwyddyd fo iddynt

MARWGOFION.

HYDREF 25, 1923, bu farw Miss Jane Llewelyn, 5 Mill Street, Aberdare, yn 65 oed. Chwaer ydoedd i Mrs. Llewelyn, Y Bwllfa. Bu Mrs. Llewelyn yn aelod ffyddlon o'r Hen Dy Cwrdd, tra y gallai, ond ar ol gweini ar ei mam a fu mewn afiechyd a nychdod am amser maith, ac oherwydd ei bod yn drwm ei chlyw ei hunan arhosai gartref, ac nid ä'i allan ond ychydig iawn yn y blynyddoedd diweddaf. Ni chafodd gystudd maith iawn a daeth y diwedd yn esmwyth a thawel. Claddwyd yn y fynwent gyhoeddus dydd Sadwrn, Hydref 27ain. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

RHAGFYR 22, 1923, yn 46 oed, bu bu farw Richard Jones, 5 Oxford St., Aberdar. Wedi iddo ymuno a'r fyddin bu am fisoedd yn Ffrainc, a chan nad oedd yn un o'r rhai cryfaf gadawodd y *Trench Fever*, a phethau cyffelyb, eu hargraff yn ddwfn arno. Bu yn nychu am rai misoedd, a gwelwyd rhwng ei afiechyd a thrafferth masnach nad oedd modd iddo wella. Hannai o gyff Undodaidd, ac yr oedd yntau yn Undodwr selog, ac yn aelod ffyddlon yn yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'r weddw yn ei hiraeth a'i galar. Bu'r angladd dydd Iau, Rhagfyr 27, a chladdwyd yn y fynwent gyhoeddus, y Parch. E. R. Dennis yn gwasanaethu.

RHAGFYR 31, 1923, yn nhŷ ei mab a'i merch-ynghyfraith, Pantisdaufan, Llanarth, Mary, gweddw y diweddar Thomas Thomas, gynt o'r Ffinant, wedi hynny o Pantcoch Villa, Talgarreg, yn 76 oed, gan adael pump o blant, brawd, chwaer, a llawer o berthynasau ereill mewn galar. Fel llawer i fam arall sydd wedi magu teulu lliosog gwelodd yr hen chwaer yma lawer tro ar fyd, ond daliodd yn ysprydol drwy'r oll ; yn yr oriau tywyllaf gallasai fod yn siriol ei hyspryd a'i siarad. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diweddaf yma gwelodd lawer o dywydd garw ; gwelodd golli tri o blant a'i phriod ; yn naturiol, yr oedd pob un o'r ergydion hyn yn gwneud ei ol. Daeth nifer luosog o gyfeillion a pherthynasau ynghyd y dydd Iau dilynol i hebrwng ei gweddillion i gladdfa'r teulu ym mynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, a J. R. Thomas (A.), Mydroilyn.

IONAWR 3, yn 75 mlwydd oed, bu farw Elizabeth Davies, Llwynifan Cottage, ar ol cystudd caled yn y diwedd. Nid oedd wedi bod yn rhy gryf er's tro bellach, a theimlid ei bod yn gwywo. Hi oedd yr olaf o chwiorydd Llwynifan, ac y mae'r lle'n wag iawn hebddynt. Yr oedd wedi bod yn selog ar hyd y blynyddoedd er dan anfanteision, a chwith ydyw gweled yr hen famau'n cwympo un ar ol y llall, gan adael bylchau di-drugaredd yn hen eglwys Caeronen. Claddwyd ynghladdfa'r teulu yng Nghaeronen, yr angladd yn anghyhoedd, y gweinidog yn gwasanaethu gyda chynnorthwy y Parch. R. C. Jones. Gadawodd un ferch, dau frawd, a pherthynasau ereill i wylo'u colled.

IONAWR 7, yn 70 mlwydd oed, Henry Evans, Derwydd, gynt o Trafle, Llanfihangel-Ystrad. Er nad oedd ei iechyd yn dda ar adegau er's rhai blynyddau, eto ni feddyliai neb y byddai ei ddiwedd yn digwydd mor fuan. Saer maen oedd wrth ei alwedigaeth, a chyfrifid ef yn un deheuig iawn yn ei waith. Teithiodd lawer, a bu am amryw o flynyddau yn yr Amerig, ac yn dilyn ei alwedigaeth yno. Yr oedd o gyrhaeddiadau meddyliol cryfion, yn ddarllenwr mawr, ac yn meddu ar gof diball. Ffurfiai ei feddwl ei hun ar bob pwngc, ac yr oedd ganddo farn annibynol, am ei fod bob amser yn ceisio am y gwir. Meddai hefyd ar allu i fynegi ei feddwl fel yr oedd ei

gymdeithas yn un dyddorol iawn. Yr oedd mor gywir a gonest fel na fedrai guddio ei feddwl na'i deimlad, ac yr oedd unplygrwydd yn elfen amlwg iawn ynddo. Yr oedd o ysbryd caredig, ac yn barod i gynnorthwyo unrhyw achos tuag at ddyrchafu cymdeithas. Yr oedd iddo ddwy chwaer, un o ba rai yw Mrs. Owens, South End, Cwrtnewydd. Ei chwaer arall oedd y diweddar Miss A. Joan Evans, yr hon fu yn ysgolfeistres lwyddianus iawn yn Dihewyd. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn Rhydygwin. Pregethwyd yn South End, cartref ei chwaer, lle yr oedd yr hyn oedd farwol o honno, gan y Parch. L. Williams, Capel y Bryn, a chynorthwywyd i gyflawni'r gwasanaeth yno gan y Parch. E. Glyn Edwards, Seion, Cwrtnewydd. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y capel gan y Parch. D. Conwil Evans, Rhydygwin, ac ar lan y bedd gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

IONAWR 9, yn 84 oed, bu farw Mary Jones, yn Llaindelyn, Silian. Treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd yng nghymdogaeth Cribyn; yn ystod y blynyddoedd diweddaf bu ei thrigfa ym mhentref Ffynnonoer. Yn ddiweddar, oblegid methiant henaint, fe'i symudwyd i'r lle uchod at nith iddi. Dydd Llun dilynol dygwyd ei chorff i orffwys ym medd ei mam ym mynwent Cribyn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle; y bregeth yn y capel oddiar y testun, 'Bydd ffyddlon hyd angeu, ac mi a roddaf iti goron y bywyd.' Un o nodweddau amlwg ei bywyd oedd ffyddlondeb; yn ol mesur ei gallu bu'n ffyddlon—yn ffyddlon fel aelod eglwys, yn ffyddlon yn ei rhodiad. Ni all neb ennill canmoliaeth uwch na hyn. Gadawodd amryw berthynasau agos ar ei hol. Gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. Conwil Evans.

IONAWR 12, yn 85 mlwydd oed, Mary Evans, Blaenplwyf House, ger Llanybyther. Mewn ffermdy o'r enw Blaenplwyf, plwyf Llanllwni, y bu hi a'i phriod yn trigianu dros ran fawr o'u bywyd. Ymadawsant oddiyno, gan ddyfod i'r lle uchod. Rhagflaenodd ei phriod hi er's amryw o flynyddoedd. Meddai ar gymeriad oedd yn gyfoethog o rinweddau prydferth. Yr oedd yn nodedig am lanweithdra ynglyn a phopeth; ac er nad oedd yn ymwisgo mewn porffor a sidan eto yr oedd ei gwisg yn lân a destlus bob amser. Yr oedd cywirdeb a gonestrwydd yn elfennau mor amlwg yn ei bywyd fel yr oedd uwchlaw amheuaeth yn yr ystyr hwn. Er nad oedd mewn amgylchiadau cyfoethog yr oedd ei chymeriad uniawn a phur wedi enill parch mawr iddi. Yr oedd yn aelod o eglwys Alltyblaca, a bu yn aelod mor ffyddlawn fel nad oedd y pellder ag oedd rhyngddi a'r capel ddim yn ei rhwystro i fod yn bresennol yn aml. Er's rhai blynyddau yr oedd henaint yn gwneud ei effaith yn amlwg ar ei chorff, ac yn peri fod ei nerth yn pallu, a bu am dros flwyddyn yn y gwely. Yn ffodus iawn cafodd nith iddi, yr hon sydd wedi bod yn *nurse* mewn rhai o brif ysbytai Llundain i weini arni, a gwnaeth weini arni yn dyner ac amyneddgar iawn. Claddwyd ym mynwent Eglwys Llanllwni. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, Alltyblaca, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. James (A.), Rhydybont; D. C. Griffiths (B.), Aberduar, a D. Morris Jones (A.), Capel Nonni, a chyflawnwyd y gwasanaeth yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. B. Saunders, Curad y lle. Gadawodd ddau fab, dwy ferch-yn-nghyfraith, a neiaint mewn galar.

IONAWR 12, yn 74 mlwydd oed, bu farw Elizabeth Evans, Gwastod, Llancrwys, gynt o Tyhywel, ar ol cystudd hir. Yr oedd wedi'i chaethiwo i'r tŷ ac i'r gwely er's blynyddoedd bellach, a theimlid fod angau yn ollyngdod iddi. Aelod o Brondeifi ydoedd, ac yr oedd ei thad yn un o aelodau hynaf yr eglwys. Claddwyd hi ym mynwent Caeronen. Yr angladd yn anghyoedd yn y tŷ. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan y gweinidog, ac ar lan y bedd gan Reithor y

plwyf. Traddodwyd y bregeth goffa yng Nghaeronen, prynhawn Sul, Chwefror y 3ydd, gan y gweinidog. Gadawodd frawd, a dwy chwaer, a pherthynasau ereill i alaru ar ei hol.

IONAWR 21, yn 83 mlwydd oed, bu farw Hannah Davies, No. 6, Pound, ond yn awr o Maestir Cottage. Yr oedd wedi gorfod neillduo o'i thŷ oherwydd afiechyd ac oedran, a thrigai er's misoedd bellach yn Maestir Cottage gyda'r chwaer a'r teulu yno. Yr oedd wedi chystuddio'n drwm ar y diwedd. Claddwyd hi y dydd Iau canlynol ym mynwent Brondeifi, ac yr oedd wedi bod yn aelod yma am hanner canrif, ac yr oedd yn un o'r trigain aelod pan gorfforwyd Tynrhewl yn eglwys. Yr oedd yr angladd yn anghyoedd yn y tŷ, a gwasanaethwyd yn yr angladd gan y gweinidog, gyda chynorthwy caredig y Parch. Daniel Jones (B.), ar lan y bedd. Gadawodd chwaer a pherthynasau ereill mewn galar ar ei hol.

IONAWR 25, yn 59 mlwydd oed, Mr. Michael Hughes, Llwynbedw, plwyf Cilrhedyn. Ni fu yr ymadawedig yn wael ond am dymor byr, ac achosodd ei farwolaeth annisgwyliadwy syndod yn yr ardal. Yr oedd yn fab i'r diweddar Samuel Hughes, o'r un lle, ac fel ei dad yr oedd yn Undodwr, ac addolai ym Mhanteg. Cafodd angladd lluosog a pharchus, a dygai y rhai a'i hadnabyddai oreu dystiolaeth uchel iddo fel cymydog caredig a pharod ei gymwynas i bawb. Gadawodd i alaru ar ei ol un brawd, tair chwaer, a chylch helaeth o berthynasau eraill. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honno y dydd Mercher dilynol ym mynwent Capel Iwan. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Arthur Thomas, Llandyssul; yn y capel gan y Parchn. D. T. Jones, Capel Iwan, a D. D. Walters, Castell Newydd, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. H. Jenkins, Rheithor Cilrhedyn.

MANION AC HANESION.

HEN DY CWRDD, ADERDAR. — Nos Lun, Rhagfyr 31ain, cynhaliwyd cyfarfod anrhegu plant yr Ysgol Sul am eu ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn. Llywyddwyd gan Mr. John Thomas, Arolygwr. Yr oedd y cynulliad yn dda iawn. Ar y cychwyn cafwyd cwpanaid o dêa theisen, yr hyn oedd wedi ei baratoi a'i roddi gan foneddigesau caredig yr Eglwys. Yna aethpwyd drwy raglen adloniadol. Galwyd ar y Parch. E. R. Dennis i drosglwyddo yr anrhegion i'r plant. Ymhlith y rhai hyn yr oedd David Harrison wedi presenoli ei hun bob Sul drwy y flwyddyn. Anrhegwyd 15 arall gydag ef, Mr. Dennis yn datgan gair o gefnogaeth iddynt wneyd yn well y flwyddyn nesaf. Ar ol hyn chwareuwyd *Sketch* gan rai o'r bechgyn ieuainc, a gwnaethant eu gwaith yn ganmoladwy iawn.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Nadolig traddodwyd darlith yn y lle uchod gan y Parch. J. Dyfnallt Owen, Caerfyrddin. Y testun oedd "Y Beca," a chafwyd darluniau byw a chyffrous o'r amseroedd celyd welwyd yn Nghymru yn nghymydogaeth 1840. Y cadeirydd oedd y lleygwr gweithgar a defnyddiol, Mr. T. G. Thomas, Talgarreg, a chafwyd araeth bwrpasol ganddo yntau. Yr oedd yr hin yn anffafriol iawn, a rhwystrodd lawer i ddod i'r wledd.

CWM.—Ar derfyn y gwasanaeth yn y lle hwn nos Sul, Ionawr 20, anrhegwyd deunaw o blant Ysgol Sul y lle â llyfrau Cymraeg am eu mynychiad o'r ysgol y flwyddyn

ddiweddaf gan Mr. D. J. Thomas, Ty'ngrugisaf. Mae sel ei dad dros yr achos yn y lle hwn wedi meddianu Mr. Thomas, ac er i fwlch mawr gael ei wneyd yn yr eglwys pan y collwyd ei dad, eto y mae'r bwlch yn cael ei lanw. Da gweled y fath gariad at yr Ysgol Sul, a datganodd yr eglwys ei diolchgarwch i Mr. Thomas am roddi y fath wobrau gwerthfawr i'r plant.——Derbyniwyd pedwar o aelodau newyddion yma y Sul cyntaf o'r flwyddyn hon.

LLANDYSSUL.—Dydd Calan, anrhegwyd aelodau Ysgol Sul Capel y Graig a chyfeillion yr Eglwys â gwledd o dê a phob danteithion gan Mr. a Mrs. Benjamin Jones, Troedrhiw, Fairdref. Cawsant eu cynnorthwyo with y byrddau gan foneddigesau caredig yr Ysgol Sul. Y Sul dilynol datganodd yr Eglwys ei diolchgarwch iddynt am eu caredigrwydd. Pwy fydd yn barod y tro nesaf i ddilyn eu hesiampl dda? Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngherdd llwyddianus iawn yn y Tysul Hall, pryd y cymerwyd rhan gan y plant ac aelodau eraill yr Ysgol Sul. Cawsom ein cynorthwyo yn garedig yn y cyngherdd gan Miss Evans, Argoed, Tregroes, a Mr. T. Ainsleigh Jones, Aberystwyth, a Mrs Howell Davies, Llandyssul. Yr oeddem yn ddiolchgar am eu gwasanaeth parod. Dywedir ei fod yn un o'r cyngherddau mwyaf llwyddianus o'r natur hwn a gawsom erioed. Derbynied pawb ein diolchgarwch cynhesaf. Rhoddwyd yr elw sylweddol i Drysorfa yr Ysgol Sul.——Y Sul cyntaf o'r flwyddyn rhoddwyd gwobrau i aelodau yr Ysgol Sul am eu flyddlondeb, a rhannwyd y *Penny Bank*. Y cyfanswm rannwyd ydoedd £366 10s. Y mae y mudiad hwn yn llwyddianus iawn o'i ddechreu.

ADOLYGIAD.—*Library of Philosophy and Religion.*—Y mae y Mri Hodder a Stoughton, Llundain, yn cyhoeddi cyfres o lyfrau poblogaidd yn dwyn y teitl uchod. Golygydd cyffredinol y gyfres ydyw y Parch. W. Tudor Jones, M.A., Ph D., Bryste. Synnir ni yn aml sut y medr Dr. Jones gael amser i gyflawni yr holl waith wna, ac a wna mor dda. Heblaw gofalu am ei eglwys, darlithia o Gaergybi i Gaerdydd, y mae wedi cyhoeddi yn barod nifer o lyfrau, ac y mae rhagor eto yn yr arfaeth. Y mae tair cyfrol o'r gyfres uchod allan o'r wasg :—*Buddhism and Christianity*, gan Dr. J. Estlin Carpenter ; *Metaphysics of Life and Death*, gan Dr. Tudor Jones, ac *Aspects of the Study of Society*, gan Mr. R. T. Evans, Coleg Caerdydd. Nid oes ofod i fanylu ar y tair cyfrol hon yn awr. Dymunem eu cymeradwyo yn galonog i'n darllenwyr ddymunant wybod rhywbeth am y syniadau diweddaraf a mwyaf goleuedig ar y pynciau. Tri a chwech ydyw pris pob cyfrol.

AIL GASGLIAD O EMYNAU A THONAU.—Y mae y Casgliad o Emynau a Thonau gyhoeddwyd yn 1918 gan bwyllgor Cymanfa Gerddorol Ceredigion yn adnabyddus drwy ein holl eglwysi. Cyfaddefa pawb ei fod wedi bod yn ddefnyddiol a gwasanaethgar. Y mae yn bleser gennym roesawu Casgliad arall cyffelyb, yr hwn elwir yn Ail Gasgliad. Cynnwysa 70 o Donau a 138 o Emynau, ynghyd a 15 o Donau ac Emynau at wasanaeth y plant. Y mae y Pwyllgor i'w longyfarch yn galonog iawn yn dwyn y Casgliad hwn allan. Y mae yn weddol rydd o frychau, ond diau y gwel y cyfarwydd frychau allesid fod wedi eu hebgor. Gwelwn yn y ddau Gasgliad hwn y ffordd yn cael ei rhwyddhau erbyn dygiad allan ein Llyfr Emynau newydd. Pris y Casgliad ydyw naw ceiniog, drwy y post, 10 ceiniog. Gellir ei gael oddiwrth y Cyhoeddwyr, Swyddfa'r YMOFYNYDD, neu yr Ysgrifenydd, Mr. Tom Davies, Dewi Villa, Llandyssul.

YR ydym wedi ein creu yn y fath fodd fel yr ydym mewn cyffyrddiad a rhywbeth tu hwnt i'r llen.—*Cook.*

GALL dyn wybod—nid pob peth—ond digon i bob pwrpas ymarferol.

MAE yn rhaid fod i bob cyfnewidiad ryw achos digonol. Mae pob gallu yn tarddu oddiwrth ewyllys.

BRWYDR Y COED.

Daeth adre'n y plygain o faes y gyflafan,
A'i galon mor gynes a bu hi erioed ;
Daeth adref i'w frodir o waew'r Cyfandir,
Daeth adre'n ddiangol o "Frwydr y Coed."

O lawnder ei fynwes adroddodd yr hanes
Am frwydr galetaf ymladdwyd erioed,
Am fechgyn o Gymru yn codi dan ganu
I ymlid y gelyn o'i ffau yn y coed.

Daeth atom i'r ffosydd frysneges Maeslywydd
I hwylio ein harfau ar frys, yn ddioed;
Ac ebe'r gorchymyn, "Rhaid symud y gelyn
A'i erlid o'i loches, draw acw'n y coed."

Y nos a enciliodd, a'r boreu a wawriodd,
Y boreu rhyfeddaf a welsom erioed;
A ni yn y ffosydd yn disgwyl yn eofn
Y gair i ymosod a chym'ryd y coed.

"Chwi fechgyn o Gymru," medd swyddog y cadlu,
Rhaid heddyw ymdrechu'n fwy chwyrn nag erioed ;
Aed pob un i weddi ar Dduw ei rieni,
Rhaid ymladd hyd farw ; rhaid cym'ryd y coed.

Ar hyn dyma'r bechgyn yn taro hen emyn
Ar alaw Gymreigaidd, mor ber ag erioed,
A'r canu rhyfeddaf, ie'r canu dwyfolaf,
Oedd canu y bechgyn cyn myned i'r coed.

Yn sŵn taranfolltau ergydion magnelau,
Cychwynodd y gatrawd mor ddewr ag erioed ;
A thân y gelynion ddisgynai yn greulon,
A'r glewion lu'n syrthio cyn cyraedd y coed.

Ar ol brwydro gwaedlyd ac ymladd dychrynllyd,
Enillwyd y frwydr galetaf erioed ;
Ond beth am yr ingoedd pan gofier am ganoedd
O feddau dienw wrth odreu y coed ?

Os canu yr emyn a ddarfu y bechgyn
Cyn marw'n y frwydr galetaf erioed;
Yn Seion yn canu yn rhydd o'u treialon
Mae'r bechgyn "aeth adref" o frwydr y coed.

Yn Nghymru mae mamau a briw eu calonau
Sydd heddyw yn ddyfnach—mwy llym nag erioed ;
Eu bechgyn glân, tirion, a sail eu gobeithion
Mewn beddau estronol—pris enill y coed.

O ! Walia deg, wyla, a than wylo, cofia
Dy feibion fu'n harddu dy hanes erioed ;
I oesoedd diderfyn clodforer dy fechgyn
Fu'n ymladd, fu farw, yn mrwydr y coed.

D. C. HERBERT.

Park Hall Camp, Oswestry.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —